

# Araith y Frenhines a'r Cynulliad

Hysbysiad Hwylus

Mai 2013

## Cyflwyniad

Araith y Frenhines sy'n dynodi dechrau pob sesiwn o senedd y DU ac mae'n nodi'r polisiau a'r ddeddfwriaeth arfaethedig y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Traddodir yr **araith bob blwyddyn yn ystod y gwanwyn**, fel arfer ar ddechrau mis Mai.

Mae'r Hysbysiad Hwylus hwn yn darparu gwybodaeth am Araith y Frenhines, gan gynnwys sut y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried ei chynnwys ac yn craffu arni.

## Agoriad Swyddogol y Senedd

Mae pob **sesiwn seneddol flynyddol** yn dechrau gydag Agoriad Swyddogol y Senedd, lle mae'r brenin neu'r frenhines yn agor Senedd y DU yn ffurfiol ac yn rhoi amlinelliad o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Mae sesiynau Senyddol San Steffan yn para blwyddyn fel arfer.** O ganlyniad, bydd unrhyw Fil yn methu os nad yw wedi cwblhau ei daith drwy ddau dy Senedd y DU erbyn diwedd sesiwn benodol a byddai raid dechrau'r daith ddeddfwriaethol honno o'r newydd, oni bai fod y Bil yn destun 'cynnig i'w gario ymlaen'<sup>1</sup> o'r sesiwn flaenorol.

Mae'r sesiynau presennol yn rhedeg o un gwanwyn i'r nesaf, ac mae hon yn amserlen gymharol newydd a gyflwynwyd yn sgîl **Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011**. Mae'r Ddeddf yn gosod tymor o bum mlynedd ar gyfer pob tymor seneddol, a phob un yn cynnwys pum sesiwn seneddol flynyddol yn arwain at Etholiad Cyffredinol yn y DU ym mis Mai ar ddiwedd y bumed sesiwn. Cyn hyn, cynhaliwyd Agoriad Swyddogol y Senedd a'r araith i ganlyn hynny yn ystod yr hydref, ar ôl tymor cynadleddau'r pleidiau gwleidyddol.

Mae'r **Cynulliad, fodd bynnag, wedi mabwysiadu sesiynau pum mlynedd di-dor** ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad ym mis Mai 2011. Mae hyn yn golygu bod Biliau'r Cynulliad yn cael eu cario o un flwyddyn i'r nesaf heb fod angen cynigion i'w cario drosodd. Wrth esbonio'r rhesymau dros y ffordd hon o weithio, dywedodd y Prif Weinidog y dylai rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd ganiatáu mwy o ryddid i gynllunio a hyblygrwydd o ran dwyn eitemau ymlaen fel y gellir eu datblygu ac ymgynghori'n llawn arnynt cyn eu cyflwyno.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Senedd y DU, **Glossary: Carry-over motions/bills**

<sup>2</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion **Cyfarfod Llawn: Blaenoriaethau Deddfwriaethol**, 14 Mehefin 2011

## Araith y Frenhines

Caiff Araith y Frenhines ei thraddodi gan y Frenhines o'r Orsedd yn Nhy'r Arglwyddi, o flaen Aelodau'r ddau Dy. Er bod y frenhines yn darllen yr araith, caiff y cynnwys ei ddrafftio'n gyfan gwbl gan Lywydraeth y DU ar y pryd.<sup>3</sup>

Fel arfer, caiff copïau o'r araith eu darparu gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU ychydig ar ôl iddi gael ei thraddodi gan y Frenhines, ar wefannau **GOV.UK** a **Number 10**. Yn dilyn Araith y Frenhines yn 2012, rhoddodd Llywodraeth y DU **nodiau briffio manwl hefyd i gyd-fynd â'r wybodaeth yn yr araith**, ac a oedd yn cyfleu nodau, amcanion a chyrhaeddiad tiriogaethol pob Bil yn yr araith.<sup>4</sup>

## Biliau'r DU sy'n gwneud darpariaethau mewn meysydd datganoledig

Mae'r Biliau a gaiff eu hamlinellu yn Araith y Frenhines yn dueddol o amrywio o ran eu **heffaith a'u cyrhaeddiad tiriogaethol**. Er enghraifft, bydd rhai Biliau yn gymwys i'r DU gyfan, a bydd rhai yn benodol i Loegr, Cymru a Lloegr, neu unrhyw gyfuniad o ardaloedd cyfansoddiad y DU. Mae'r Biliau hynny sy'n gymwys i Gymru ac sy'n gwneud darpariaethau o fewn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad o ddiddordeb arbennig i'r Cynulliad. Y rheswm yw bod confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad roi ei gydsyniad i Senedd y DU ddeddfu ar ei ran mewn amgylchiadau o'r fath drwy bleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar yr hyn a elwir yn **Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM)**.<sup>5</sup>

Yn dilyn Araith y Frenhines yn 2012, anfonodd Llywodraeth Cymru **lythyr at y Llywydd a holl Aelodau'r Cynulliad** a oedd yn nodi'r holl Filiau yn yr Araith a oedd yn gwneud darpariaethau yn y meysydd datganoledig ac a fyddai'n debygol o ysgogi'r angen am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r arfer hwn ar ôl pob un o Areithiau'r Frenhines o hyn ymlaen.<sup>6</sup>

## Ymddangosiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Cynulliad

Mae Adran 32 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ('Deddf 2006')<sup>7</sup> a Rheol Sefydlog 13.3<sup>8</sup> yn rhoi'r hawl i **Ysgrifennydd Gwladol Cymru gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad, ond nid i bleidleisio**, ac i gael mynediad at ddogfennau sy'n berthnasol i'r trafodion hynny. Mae Adran 33 o *Ddeddf 2006* hefyd yn cynnwys y gofyniad i **Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch cynnwys rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth y DU mewn Cyfarfod Llawn** o'r Cynulliad o leiaf unwaith yn ystod pob sesiwn seneddol. Mae Rheol Sefydlog 11.21(i) y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol hefyd bod amser yn cael ei neilltuo ym mhob un o flynyddoedd y Cynulliad ar gyfer dadl ar Araith y Frenhines.

Pan wneir penderfyniad ar ddechrau sesiwn seneddol, y dylai Bil gael ei gyflwyno i'r Senedd ac nad yw'r Bil hwnnw wedi cael ei gynnwys yn ymgynghoriad cychwynol yr Ysgrifennydd Gwladol â'r Cynulliad, yna mae *Deddf 2006* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori gyda'r Cynulliad arno (oni bai ei fod yn ymddangos yn amhriodol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud hynny).

Mae'r **Gwasanaeth Ymchwil yn cynhyrchu papur yn fuan ar ôl i'r araith gael ei thraddodi** a chyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ymddangos gerbron y Cynulliad, yn crynhoi nodau ac amcanion y Biliau sydd wedi'u cynnwys, gyda phwyslais arbennig ar y Biliau hynny sy'n effeithio ar feysydd datganoledig yng Nghymru.

<sup>3</sup> Senedd y DU, *State Opening of Parliament*

<sup>4</sup> Swyddfa'r Cabinet, *The Queen's Speech – briefing notes*, 9 Mai 2012

<sup>5</sup> Gellir cael rhagor o wybodaeth am Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn yr Hysbysiad Hwylus: Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol

<sup>6</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, y *Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol*, 22 Ebrill 2013

<sup>7</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32) (Saesneg yn unig)

<sup>8</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Ionawr 2013, Rheol Sefydlog 13.3

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Araith y Frenhines a Chymru** cysylltwch ag **Owain Roberts** ([owain.roberts@cymru.gov.uk](mailto:owain.roberts@cymru.gov.uk)), y Gwasanaeth Ymchwil.

### Gweler hefyd:

- Rhestr o **Hysbysiadau Hwylus, Papurau Ymchwil** neu **Nodiadau Ymchwil** eraill perthnasol
- Rhestr o ffynonellau neu wefannau eraill sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: [www.cynulliadcymru.org/bus-home/research.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/research.htm)

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn e-bost at [Research.Service@cymru.gov.uk](mailto:Research.Service@cymru.gov.uk)

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cynhyrchu'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff, ond ni allant gynghori'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 13/1026**

**Enw'r awdur** Owain Roberts